

Dydd Llun 20fed Mawrth 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi'r cyfle i mi ddarparu adborth ar y fersiwn ddrafft o'ch Asesiad o Lesiant Lleol a anfonwyd i'r swyddfa yn Chwefror 2017.

Y peth cyntaf yr wyf am ei wneud yw gwneud yn glir fy mod i'n deall yn llwyr yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaed gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n rhoi un o'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a darparu gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad chi yn rhan allweddol o hyn, ac er fy mod yn deall na fydd, o bosibl, yn ddarlun llawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, y mae'n bwysig ei fod yn rhoi darlun clir a deallus o lesiant Sir Benfro a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau allweddol ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Atodaf ddogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a'r hyn y dylech ystyried adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ac yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18, un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn eich bod yn ceisio cyngor gennyf ar sut mae cymryd camau i gyflawni eich amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (pum dull o weithio).

Nodaf isod rai o'r pethau y byddaf yn chwilio amdanynt wrth i'm swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn rhoi sylw i'r pum dull o weithio mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant, a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad cysylltiedig o ran mwyafu eu cyfraniad cyfunol i'r nodau a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae strwythur 'cyfnodau cylch bywyd' yn ddull diddorol a chymhellol sydd i'w ganmol. Trwy adrodd stori penderfynyddion llesiant unigolion a'r modd y bydd arnynt angen gwasanaethau cyhoeddus ar adegau gwahanol, rydych yn rhoi cig a gwaed ar esgyrn yr asesiad ac yn ei wneud yn fwy hygyrch i

gynulleidfa ehangach. Mae'n amlwg eich bod wedi gwneud ymdrech hefyd i feddwl am wahanol gyfnodau bywyd mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft, drwy ganolbwyntio ar ymgysylltu â phobl ifanc, ac yn y modd y darluniwch botensial pobl hŷn i fod yn 'asedau' yn eich cymunedau.

Mae'n amlwg eich bod wedi rhoi cryn ystyriaeth i **gynnwys eich pobl a chymunedau**, ac roedd yn dda gweld bod rhai o'ch cwestiynau yn troi o gwmpas yr hyn y mae pobl am ei weld yn y dyfodol. Byddwn yn eich annog i adeiladu ar hyn i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion ymgyfrannu a dylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn a wnewch.

Mae cynllunio **tymor hir** yn rhan allweddol o'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio'i gyflawni a byddai'n fanteisiol petaech yn rhoi mwy o ystyriaeth i hynny wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Fel y dywedais wrth BGCau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, credaf fod gennych gyfle arbennig i gynnwys hyn yn eich ffrâm 'cyfnodau bywyd', drwy ystyried llesiant dinesydd (neu gymuned) yn 2040, drwy gynllunio senarios.

Hoffwn eich gweld yn ymchwilio ymhellach i **integreiddio** materion polisi a heriau ar draws cyfnodau bywyd. Er mwyn i'r BGC ddeall sut gallwch **fwyafu eich cyfraniad** i'r nodau llesiant, bydd angen deall y berthynas rhwng y ffrâm cyfnodau bywyd a'r saith nod cenedlaethol a'i chyfleu yn glir. Mae'n bwysig hefyd fod cysylltiad clir rhwng y data a gasglwyd, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth o sut mae canfyddiadau'r asesiad yn effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol yn ogystal â rhai lleol.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rydych chi'n cyfeirio'n dda at hynny wrth ystyried rhai o gyfnodau cynharach bywyd. Mae hwn yn faes lle byddwn i'n eich annog i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthy, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio** yn allweddol i hyn oll - nodaf eich bod wedi cydweithio â BGCau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ar eich gwaith ymgysylltu ac mae hynny'n galonogol iawn. Mae cyfle gennych bellach i symud eich gwaith partneriaeth yn Sir Benfro i lefel newydd, gan gydweithio drwy gyfrwng adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i nodi'r cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynlluniau llesiant angen eich ymrwymiad a'ch cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, fwy na thebyg, fydd yr arweiniad a roddir gennych a'ch parodrwydd i roi lle a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid diwylliant hwn yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y bydd gofyn i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech gymryd camau i gyflawni eich cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach ynghylch sut byddwch chi'n defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Byddwn yn ddiolchgar os gallech roi gwybod i'm swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg, bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y BGC. Nodwyd bod angen ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu a bod hynny'n rhan bwysig o fwyafu'r gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Rwy'n gobeithio bod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld datblygu eich asesiad fel digwyddiad unwaith yn unig. Wrth symud ymlaen, byddaf yn rhoi cyfleoedd i'r BGCau rannu gwersi ac arfer gorau. Gobeithio y byddwch chithau'n ymwneud â hynny, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi gyflawni eich ymrwymïadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Asesiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ar y fersiwn ddrafft o *Asesiad Llesiant Sir Benfro - Fersiwn Ymgynghori*, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro - Asesiad Llesiant Sir Benfro - Fersiwn Ymgynghori Chwefror 2017
- trafodaeth ffôn rhwng y tîm prosiect ac aelodau o dîm y BGC ar 8^{fed} Mawrth.

Bwriedir bod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cyhoeddi'r asesiad yng ngwanwyn 2017 lle bydd hynny'n bosibl a chan gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn llywio'r prosesau parhaus o ddatblygu eich asesiad a'ch cynlluniau llesiant.

Mae'r asesiad wedi cael ei adolygu gan y tîm prosiect gan ddefnyddio set o feini prawf a ddatblygwyd yn arbennig i ffocysu ar agweddau ar waith cynhyrchu, methodoleg a dadansoddi yr asesiad a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu'r ystod eang o ymagweddau tuag at yr asesiad llesiant lleol a ddefnyddiwyd, ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i'r BGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd y gellid eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r swyddfa i nodi materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrrff sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymwneud â chynllunio llesiant.

Rydym yn deall bod yr Asesiad Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y misoedd sy'n dod, ond mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol a gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu a'i addasu, ac wrth adeiladu arno i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion rydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod BGCau yn dangos sut maent yn cynllunio i *fwyafu* eu cyfraniad i'r nodau.

Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Sir Benfro, y pum cyfnod bywyd sef: *Dechreuadau newydd; Plentyndod; Ieuentid; Oedolaeth a Phobl Hŷn* a throsolwg o lesiant ledled Sir Benfro gan ffocysu ar boblogaeth; natur wledig a mynediad; lle a chymuned; iechyd, yr amgylchedd a'r economi.

Mae'n glir o'r sgwrs ffôn fod llawer o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ddefnyddio'r ffrâm hon. Byddai'n ddefnyddiol petai'r asesiad yn egluro pam y defnyddiwyd y dull hwn - a pham mae'r materion allweddol ym mhob cyfnod yn fwy perthnasol i lesiant nag eraill?

Er bod cyfeiriad at y saith nod cenedlaethol fel 'fframwaith trosfwaol' yn y cyflwyniad, ni chyfeirir atynt o dan bob un o'r cyfnodau bywyd nac yn y dystiolaeth na'r dadansoddiad ar gyfer Sir Benfro yn gyffredinol. Er mwyn i'r BGC ddeall sut y gall fwyafu ei gyfraniad at y nodau llesiant, bydd angen deall y berthynas rhwng y 'ffrâm' hon yn yr asesiad a'r nodau cenedlaethol, a'i chyfleu yn glir.

Rydym yn cydnabod, yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, bod y ffocws ar gyfnodau bywyd yn ddefnyddiol ar sawl ystyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd bod cysylltiad clir rhwng y data, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth o sut mae canfyddiadau'r asesiad yn effeithio ar nodau llesiant cenedlaethol yn ogystal â rhai lleol. Byddai'r ddogfen gyfan yn elwa o ddehongli mwy ar y data er mwyn deall ei arwyddocâd, yn enwedig i lesiant yn Sir Benfro - a byddwn yn dychwelyd at y thema hon trwy gydol yr adborth hwn.

Mae'n dda clywed tîm y BGC yn dweud yn ystod y sgwrs ffôn y bydd y gwaith a gynllunnir gyda phartneriaid yn y misoedd nesaf yn ffocysu'n fwy pendant ar y nodau llesiant, fel yr awgrymwyd yn yr adran '*Datblygiadau pellach a bylchau yn y dystiolaeth*', ac edrychwn ymlaen at weld tystiolaeth o hynny trwy gydol y broses cynllunio llesiant yn Sir Benfro.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod asesiadau llesiant yn canolbwyntio ar yr ardal a'r 'lle' ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hynny.

Mae'n amlwg o'r asesiad bod ystod eang o ddata cenedlaethol, rhanbarthol a pheth data lleol wedi'i defnyddio i lywio'r asesiad. Fe'i defnyddiwyd i roi sylwebaeth eang ar lesiant a phenderfynyddion llesiant i unigolion ar draws Sir Benfro. Mewn sawl man, mae'n troi o gwmpas mynediad at wasanaethau, natur wledig a llai o gyfleusterau lleol. Byddai'n ddefnyddiol petai modd rhoi ystyriaeth i ddeall gwahaniaethau gofodol o ran sut mae'r penderfynyddion llesiant hyn yn effeithio ar ardaloedd trefol o gymharu â rhai gwledig, neu ar ardaloedd arfordirol o gymharu â rhai mewndirol.

Er ein bod ni'n cydnabod gwerth y ffrâm cyfnodau bywyd, gellid gwella'r asesiad hefyd drwy ganolbwyntio'n llawer mwy ar wahaniaethau o fewn a rhwng y tair ardal gymunedol. Nodir bod y Gymraeg yn fater â gwahaniaethau gofodol - fodd bynnag, mae anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau, tai, cysylltedd a thrafnidiaeth yn hollbwysig er mwyn deall materion cyfnodau bywyd mewn gwahanol rannau o Sir Benfro. Credwn y dylai asesiad llesiant gynnig dealltwriaeth o lesiant sy'n fwy lleol (a llai unffurf), a byddwn yn chwilio am dystiolaeth o hynny wrth i'r cynllunio llesiant symud ymlaen.

Roedd y sgwrs ffôn gyda thîm y BGC yn ddefnyddiol o ran deall anhawster casglu data ar lefel leol iawn. Unwaith eto, mae'n galonogol clywed y gwneir rhagor i fynd i'r afael â hyn mewn gwaith parhaus gyda phartneriaid.

Gellid gwella'r asesiad ymhellach drwy gynnwys data ynghylch seilwaith hanfodol o ran ynni, dŵr, trafndiaeth ac amddiffyn yr arfordir. Mae hyn yn golygu nid yn unig disgrifio bod mater yn bwysig (e.e. perygl llifogydd), ond dehongli'r heriau allweddol a'r cyfaddawdau i Sir Benfro yn arbennig, yn hytrach na naratif sy'n dweud pam mae materion yn bwysig. Mae'r math hwn o wybodaeth yn allweddol berthnasol i'r BGC, i ddarparu gwasanaethau ac i lesiant cymunedol yn y dyfodol.

4. Cynnwys data - anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o unigolion.

Un o flaenoriaethau fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod, yn y lle cyntaf, yn cynnwys pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau bywyd pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau. Da yw gweld cysylltiad cryf rhwng yr Asesiad Poblogaeth a'r Asesiad Llesiant yn yr adrannau ynghylch cyfnodau bywyd yn y ddogfen, ac ymrwymiad pellach i integreiddio'r gwaith o ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel rhan o gynllunio llesiant.

Mae defnyddio'r ffrâm cyfnodau bywyd yn yr ymgynghoriad wedi rhoi dealltwriaeth fanwl i'r BGC o lesiant i unigolion a'u hanghenion. Yn ogystal, mae'r gwaith ymgynghori yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth ynghylch yr hyn y mae pobl yn meddwl sy'n bwysig iddynt, sy'n cysylltu â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae angen dehongli mwy ar arwyddocâd y data i'r gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Benfro a byddem yn disgwyl i'r asesiad ddatblygu'r maes hwn. Er bod dealltwriaeth gyffredinol o natur gwasanaethau cyhoeddus trwy'r 'trosolwg' a'r cyfnodau bywyd - nid yw'n glir a yw'r gwasanaethau cyhoeddus cyfredol yn ddigonol, ymhle y mae'r bylchau a'u goblygiadau i lesiant yn awr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, pa bwysau y mae'r sefyllfa bresennol yn ei roi ar y gwasanaethau cymdeithasol? Pa wasanaethau sy'n arbennig o fregus oherwydd natur wledig yr ardal?

Mewn manau, gallai'r asesiad fod yn fwy *eglwur* ynghylch beth yw goblygiadau'r heriau i'r gwasanaethau cyhoeddus o ystyried y sefyllfa gyfredol. A yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon? A oes bylchau? Ble mae angen mwy o bwyslais? Byddai'r math hwn o asesiad yn galluogi'r BGC i ddeall beth sydd angen ei newid er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn. A reolir y materion hyn yn ddigonol ar hyn o bryd ac ym mha ardaloedd y gallai fod angen mwy o weithredu ar y cyd?

5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod her cydbwysio data, sylwadau a thystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dulliau a dadansoddiadau meintiol ac ansoddol yr asesiadau yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth gychwynnol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Mae'n amlwg bod ystod eang o ddata meintiol ac ansoddol wedi'i defnyddio i lywio'r sylwebaeth yn yr asesiad llesiant. Nodir yn arbennig yr ystod amrywiol o ddata a ddefnyddiwyd i lywio'r adran ar gyfnod bywyd *leuenctid* - gan adlewyrchu'n glir yr ystod eang o ymgysylltu â phobl ifanc ledled yr ardal. Byddai'r asesiad yn elwa o adran gyfeiriadol ar ddiwedd y ddogfen (neu droednodiadau) - a bydd cadw golwg ar y ffynonellau data yn bwysig wrth i'r asesiad gael ei ddefnyddio a'i ddiweddarau.

Defnyddiwyd y data ymgynghori yn dda yn yr adrannau 'cyd-destun' a 'chlyfnodau bywyd'. Mae'r rhan fwyaf o'r adrannau yn egluro beth yw'r materion - a pham mae'r rhain yn bwysig, ond fel y nodwyd o'r blaen, mae angen mwy o ddehongli yng nghyswllt Sir Benfro, ardaloedd lleol a chymunedau penodol. Mae'n amlwg bod gan Sir Benfro gymunedau a heriau amrywiol. Sut gallai llesiant mewn cyfnodau bywyd amrywio rhwng Aberdaugleddau a Neyland?

Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig adborth mwy penodol ar bob thema sy'n cael sylw yn adran

'*Sir Benfro yn ei chyd-destun*'. Dilynir hyn gan adborth pellach ar yr adrannau cyfnod bywyd yn y ddogfen:

Poblogaeth: ceir rhestrau o ystadegau o dan y thema hon ond ychydig iawn o ddehongli sydd - beth yw'r materion penodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a llesiant ar draws Sir Benfro oherwydd natur ei phoblogaeth? A yw lleoliad, maint a gweithgareddau trefi'r sir yn codi materion llesiant penodol rhwng y tair USOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Uwch)? Beth yw goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio i lesiant ar draws yr ardal?

Natur wledig a mynediad - unwaith eto codir llawer o faterion yma, ond ni chawn fawr o syniad o'r sefyllfa benodol yn Sir Benfro. Sut mae tlodi gwledig i'w weld? A yw'r ffyrdd yn gydnherth ac a oes modd eu hariannu? Pa mor addas i'r diben yw'r ddarpariaeth TG o ystyried y cynlluniau uwchraddio presennol? Beth yw'r cyfyngiadau o ran darparu trafndiaeth gyhoeddus?

Lle a chymuned - mae'r adran hon yn cynnwys grŵp eclecticig o faterion sy'n bwysig iawn ynddynt eu hunain fel crefydd, troseddu, gwirfoddoli, henebion - ond nid yw'n creu syniad o ystyr lle neu gymuned yn Sir Benfro. Mae'r adran hon yn awgrymu bod y naratif yn cael ei arwain gan y data sydd ar gael. Gallech ddatblygu hyn drwy ganolbwyntio ar gyfalaf cymdeithasol, ffactorau diwylliannol (gweler y sylwadau diweddarach), rôl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a chynnwys barn y gymuned ar y canlynol: beth mae 'lle' neu 'gymuned' yn ei olygu iddynt, beth maent yn gwerthfawrogi am eu cymuned, neu sut hoffent i'w cymuned fod yn y dyfodol.

Iechyd - mae llawer o'r wybodaeth wedi'i hysgrifennu'n dda ond yn rhoi disgrifiad cyffredinol o pam mae nifer fach o faterion iechyd yn bwysig - wedi'i ddilyn gan ddata ynghylch Sir Benfro lle mae hwnnw ar gael. Fodd bynnag, o ran trosolwg a chyd-destun, nid yw'n rhoi fawr o ddealltwriaeth i ni o sut mae materion iechyd yn effeithio ar y cyfnodau bywyd a ddisgrifir yn nes ymlaen yn y ddogfen. Gellid datblygu cyd-destun cliriach i'r mater hwn gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y cwestiynau canlynol: Beth yw'r tueddiadau iechyd presennol yn Sir Benfro o ystyried natur poblogaeth y sir? A yw'r gwasanaethau iechyd yn dygymod neu beidio? Pa mor gynaliadwy yw'r gwasanaethau iechyd yn y tymor canol? Beth yw'r pwysau a'r cyfaddawdau ar gyfer darpariaeth iechyd mewn ardal mor wledig? Beth mae dosbarthiad gofodol gwasanaethau iechyd yn ei olygu i lesiant mewn cymunedau penodol? Ym mha ffordd y mae'r cysylltiad rhwng incwm a iechyd i'w weld yn Sir Benfro?

Yr amgylchedd - mae'r adran hon yn rhoi disgrifiad cadarn ynghylch pam mae materion yn bwysig, gyda naratif sy'n canolbwyntio'n fwy o lawer ar 'Sir Benfro' - gan roi eglurhad clir gan mwyaf ynghylch yr heriau sy'n wynebu'r ardal a disgrifiad o asedau amgylcheddol y sir. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, gellid datblygu'r dehongli ar y data er mwyn cynnig gwell dealltwriaeth o arwyddocâd y risgiau y mae angen eu rheoli er mwyn darparu llesiant e.e. O ystyried gwerth asedau'r sir i amaethyddiaeth a thwristiaeth - pa agweddau sy'n wynebu'r perygl



mwyaf ac y mae angen eu rheoli'n fwy? A fydd ansawdd y pridd yn gallu parhau i gynnal amaeth? Beth fyddai'r goblygiadau petai'r 39 o gyrff dŵr yn methu cydymffurfio â'r safonau? Pa seilwaith hanfodol sy'n wynebu perygl llifogydd?

Yr Economi - Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg da o effeithiau diwygio lles ac ailstrwythuro economaidd yn Sir Benfro. Mae'n defnyddio data meintiol yn dda. Fel yr adrannau blaenorol, gallai sylwebaeth bellach fod yn ddefnyddiol o ran ehangu'r cyd-destun - yn enwedig o ran cysylltu rhywfaint o'r data ynghylch tueddiadau'r dyfodol o Adran 8. A yw economi Sir Benfro yn gryf neu'n fregus yn wyneb tueddiadau'r dyfodol a ddisgrifir mewn adran ddiweddarach? Beth yw'r risgiau a'r cyfleoedd penodol i lesiant economaidd yn Sir Benfro? Beth yw'r rhagolygon i dwristiaeth yn y dyfodol o ystyried y tueddiadau cyfredol?

Wrth ddatblygu'r asesiad yn y dyfodol, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i gyfalaf cymdeithasol a diwylliannol Sir Benfro. Lle bydd hynny'n bodoli, byddai'n elwa o fod yn fwy *disgrifiadol* ynghylch bywiogrwydd diwylliant Sir Benfro o ran y celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diod lleol, sioeau amaethyddol, rhwydweithiau gwybodaeth a natur y gwirfoddoli yn y sir.

Credwn hefyd y gellid rhoi ffocws mwy pendant ar *asedau cymdeithasol* yn Sir Benfro, ac y gellid casglu tystiolaeth ansoddol fel rhan o'r broses lesiant wrth symud ymlaen. Gallai'r ffocws hwn ar asedau ystyried y materion allweddol canlynol: cryfder y sector cymunedol o ran cefnogi llesiant cymdeithasol, natur y rhwydweithiau cymdeithasol, gwead cymdeithasol trefi a phentrefi, a rôl yr economi anariannol o ran llesiant cymdeithasol, asedau ffisegol, banciau bwyd, trosglwyddo asedau cymunedol ac ati, a lefelau (a chryfder) gofal di-dâl. Mae angen i'r hyn sy'n dda am fyw yn Sir Benfro fod yn fwy amlwg yn yr adran hon.

Ar ben y sylwadau hyn, mae rhai materion penodol i'w hystyried hefyd yn yr adrannau ar gyfnodau bywyd yn yr Asesiad:

Dechreuadau da - mae'r adran hon yn arbennig o dda o ran disgrifio pwysigrwydd ataliaeth a phwysigrwydd rhwydweithiau teulu. Mae diffyg dehongli ar arwyddocâd mesurau a ffeithiau - a ydy'r sefyllfa yn iawn? Pa faterion sy'n achosi pryder arbennig?

Plentyndod - mae'r adran hon yn eglur ynghylch ymyriadau cyfredol mewn gwahanol agweddau ar lesiant mewn plentyndod. Ond a yw'r gweithgareddau presennol yn ddigon? Pa faterion sy'n arbennig o aciwt neu gritigol? Gellid rhoi mwy o synnwyr o bwysigrwydd cymharol y materion hyn. Mae'r *Crynodeb* yn dechrau dehongli'r deunydd i'n helpu ni i ddeall y 'sefyllfa' - ond dylid adeiladu ar hyn (gweler y sylwadau pellach ar y mater hwn isod)

Ieuencid - mae'n dda gweld yr amrywiaeth o ddata arolygon a lefelau ymgysylltu ledled

Sir Benfro. Mae'r adran hon yn rhestru cruglwyth o wybodaeth berthnasol, ond mae'r dadansoddi'n gyfyngedig. Beth yw'r sefyllfa? Beth yw'r materion hollbwysig? Yn achos yr holl gyfnodau bywyd, mae angen i'r awduron fod yn fwy awdurdodol ynghylch yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthynt er mwyn i bobl ddeall y sefyllfa.

Oedolaeth - mae'r adran hon yn cynnig naratif llawer cliriach ar arwyddocâd materion llesiant arbennig drwy ddisgrifio cyd-destun yr amodau economaidd, a'r effaith ar gyfleoedd unigolion i 'gadw deupen llinyn ynghyd'. Mae'r ysgrifennu yn fwy awdurdodol yma ac adlewyrchir hyn yn y crynodeb sy'n eglur iawn ynghylch arwyddocâd materion penodol. Dylid datblygu pob adran i ddefnyddio'r dull hwn.

Pobl hŷn - mae mynegi cyfraniad pobl hŷn at lesiant fel ased, trwy eu hymwneud â grwpiau gwirfoddol a grwpiau diddordeb lleol yn ogystal â'u gwerth economaidd i'r ardal, yn gadarnhaol iawn. Mae'n gytbwys iawn ochr yn ochr â'r heriau tai, gofal cymdeithasol ac arwahanrwydd gwledig. Gellid datblygu'r crynodeb: a chadw mewn golwg y tueddiadau demograffig - beth yw'r rhagolygon i ofal cymdeithasol o ystyried y modelau darparu presennol? Pa fath o her sy'n wynebu'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn sgîl poblogaeth sy'n heneiddio a pha gymunedau yn benodol y mae hyn yn debygol o effeithio fwyaf arnynt?

Ar y cyfan, byddai'r asesiad yn elwa o ragor o *gynnwys strategol* sef disgrifiad ehangach o'r heriau llesiant i Sir Benfro i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y cyfnodau bywyd a'r Crynodeb o faterion a geir ar ddiwedd y ddogfen.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdu rhwng y gwahanol nodau llesiant, tensiynau, a diffygion yn Sir Benfro.

Fel y disgrifiwyd mewn pwyntiau yn gynharach yn y ddogfen hon, mae'r asesiad yn darparu data ynghylch ystod o ddangosyddion sy'n darlunio agweddau allweddol ar lesiant, ond yn gyffredinol, mae angen mwy o ddehongli er mwyn nodi natur a graddfa'r prif heriau, cyfaddawdau a thensiynau ac effaith y rhain ar yr ardal. Ar draws yr holl themâu, mae angen dealltwriaeth gliriach o *arwyddocâd* y materion hyn i lesiant.

Deallwn o'r sgwrs ffôn fod gwaith yn digwydd eisoes i ddechrau dehongli'r data a gasglwyd er mwyn deall yr heriau allweddol yn Sir Benfro. Byddwn yn awyddus i weld sut byddwch yn defnyddio'r

wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn i adnabod yr heriau yn well, a'r cydberthnasoedd rhyngddynt, ond hefyd i ystyried sut gallech ymateb i'r rhain fel BGC.

Mae'n amlwg bod nifer o heriau strategol yn gefnlen i'ch asesiad, ac y bydd angen eu hystyried o bosibl mewn sylwebaeth ehangach o dan bob cyfnod bywyd (fel yr awgrymwyd ym mhwynt 5 uchod). Mae'r heriau hyn yn gyffredin i bob ardal yng Nghymru: anghydraddoldeb o ran iechyd a safonau byw, pa mor gydnerth yw'r seilwaith, darparu ar gyfer y newid yn y boblogaeth; llygredd aer a pherygl lifogydd; adnoddau prin ar gyfer gofal cymdeithasol; diffyg darpariaeth tai; pobl sy'n byw mewn tldi; diwygio lles; effeithiau'r hinsawdd; cyni; disbyddu adnoddau naturiol. Er bod y rhain yn codi o bryd i'w gilydd yn y naratif, mae angen dealltwriaeth ehangach ac integredig o'u dylanwad ar lesiant, a'u heffaith bosibl ar yr ardal yn y dyfodol.

Byddai'r cyd-destun ehangach hwn yn galluogi'r BGC i ffocysu ar raddfa a natur yr ymateb y gallai fod angen amdano er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, ac archwilio'r cysylltiadau rhyngddynt. Ble a sut gallant ddatblygu gweithredu ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn?

Yn ogystal â'r heriau, gallai'r asesiad roi rhagor o bwyslais ar asedau cymdeithasol a diwylliannol Sir Benfro, fel y nodwyd ym mhwynt 5 (uchod). Mater allweddol sy'n gysylltiedig â hyn yw'r angen am fwy o gydnabyddiaeth o rôl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o ran llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yr ardaloedd. Mae hwn yn ased unigryw a phwysig y gellid ei adlewyrchu'n well ar draws yr asesiad (yn hytrach nag yn adran yr amgylchedd yn unig). Mae'n amlwg bod gan Barciau Cenedlaethol ddylanwad pwysig nid yn unig ar lesiant trigolion ond ar lesiant y genedl hefyd, a'u bod yn dylanwadu'n uniongyrchol ar niferoedd yr ymwelwyr â'r ardal ac ar gydnerthedd economïau lleol. Dylid ystyried gwerth a rôl y Parc Cenedlaethol wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

Byddai'r asesiad yn elwa hefyd o beth cyd-destun ar gyfer y Crynodeb o 22 o faterion ar ddiwedd y ddogfen. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnig amrywiaeth o faterion, heriau ac arsylwadau. A yw'r rhain yn flaenoriaethau? Ai'r rhain yw'r materion yr ymchwilir ymhellach iddynt fel rhan o'r broses cynllunio llesiant? Byddai deall y rhesymeg y tu ôl i ddewis y rhain uwchlaw materion eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad yn ddefnyddiol.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio y mae angen i BGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. O ganlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth wrth gynhyrchu'r asesiad, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau sector preifat.

Deallir o'r sgwrs ffôn fod ymdrech fawr iawn wedi cael ei gwneud i lywio'r asesiad trwy ymgynghori, ac edrychwn ymlaen at ddeall mwy am y broses hon pan fyddwch yn cyhoeddi eich *Adroddiad Ymgynghori ac Ymgysylltu*. Mae'n amlwg bod yr arolwg wedi cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid er mwyn casglu data meintiol ac ansoddol i lywio'r asesiad.

O'r dystiolaeth yn yr Asesiad a'r sgwrs ffôn, mae'n amlwg bod digwyddiadau lluosog a hwyluswyd gan wahanol bartneriaid wedi eich galluogi i ddatblygu darlun o'r hyn sy'n bwysig i bobl yn yr ardal. Mae'r niferoedd yr ymgynghorwyd â nhw yn drawiadol ac mae'r 'map geiriau' yn yr adran gyntaf yn arwydd o ehangder ystyr llesiant i bobl. Byddai'r data hwn yn elwa o well dehongliad; mae'n amlwg bod yr ymgynghori hwn wedi tynnu sylw at fwy na thri mater, a byddai dehongliad manylach o'r ffynhonnell ddata gyfoethog hon yn cryfhau'r asesiad.

Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur: pa sefydliadau sydd wedi cyfrannu i'r asesiad na beth oedd eu cyfraniad, pwy sydd wedi cymryd rhan a phwy sydd wedi'i ysgrifennu. Dylid cynnwys yr wybodaeth hon yn yr adran agoriadol er mwyn amlygu rôl pob partner. Mae'n dda clywed i ba raddau y mae'r asesiad hwn wedi bod yn gatalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC, a bod y gwaith hwnnw i barhau er mwyn archwilio'r setiau data gyda phartneriaid. Dylai'r gwaith hwn ac unrhyw ganfyddiadau allweddol o'r sesiynau gael eu hamlygu yn yr asesiad cyn y fersiwn derfynol os bydd hynny'n ymarferol bosibl.

Mae'n amlwg bod yr ymagwedd at ymdrin â'r arolwg ar y cyd ag awdurdodau cyfagos wedi bod yn fanteisiol o ran effeithlonrwydd a dylid canmol hynny. Bydd yn ddiddorol gweld hefyd sut gellir cydweithio ymhellach i ddehongli'r data er mwyn llywio materion trawsffiniol (gweler pwynt 10).

Byddai'n ddefnyddiol petai'r asesiad yn amlygu lefel yr ymgysylltu â'r sector preifat yn y broses. Byddai'r asesiad cyfan yn elwa o ddeall cyfraniad y trydydd sector a'r sector preifat i gymunedau ledled Sir Benfro, o rôl manwerthwyr yng nghanol y trefi a busnesau amaethyddol, i gymorth y trydydd sector ar gyfer pobl ifanc a'r henoed. Byddai'r wybodaeth hon yn darparu dealltwriaeth gliriach o lesiant yn y gymuned a llesiant unigolion, cymunedau neu aelwydydd yn eu tro. Beth yw'r asedau trydydd sector a sector preifat yn Sir Benfro?

8. Integreiddio

Un o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng seilos polisi a sefydliadol traddodiadol wrth gynhyrchu'r asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws y seilos polisi a sefydliadol traddodiadol er mwyn dehongli beth mae hyn yn ei olygu i lesiant yn yr ardal.

Mae hwn yn faes i'w ystyried ymhellach wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant - mae lle i roi mwy o ystyriaeth i'r data o bob adran (ac ym mhob adran) ochr yn ochr â data'r lleill, a rhoi ystyriaeth i gyberthnasoedd rhwng data.

Mae lle i integreiddio rhagor ac ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng polisiau a heriau ym mhob thema – er enghraifft tlodi a iechyd, cydnerthedd seilwaith a'r newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth ac amaethyddiaeth, busnesau gwledig a chysylltedd.

Dylai integreiddio ar draws y themâu llesiant fod yn fater pwysig i'r BGC ei ystyried wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Llesiant, yn bennaf er mwyn deall sut y gallai bod angen i'r sector cyhoeddus addasu er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws seilos polisi traddodiadol.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, y tymor canol *a'r tymor hir* trwy gydol proses yr asesiad a'r cynllunio. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad, ynghyd â chydabod llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r asesiad yn cynnig dehongliad cyfyngedig o effaith ac arwyddocâd tueddiadau poblogaeth, y newid yn yr hinsawdd, tueddiadau economaidd, gwasanaethau cynefinoedd ac ecosystemau, a thueddiadau iechyd.

Mae adran benodedig ar Dueddiadau'r Dyfodol yn Adran 8 yn rhoi trosolwg o ystod o dueddiadau: Poblogaeth; yr Economi; y Newid yn yr Hinsawdd a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n bosibl y byddai'n fuddiol cynnwys y deunydd hwn mewn sylwebaeth gyd-destunol ehangach ar ddechrau'r ddogfen ac ystyried tueddiadau'r dyfodol trwy gydol y cyfnodau bywyd. Mae sylwadau penodol yn cynnwys:

Newid yn y boblogaeth: beth yw'r goblygiadau posibl i lesiant a gwasanaethau yn sgîl y newidiadau hyn yng nghymunedau Sir Benfro yn benodol?

Y newid yn yr hinsawdd - dylai'r adran hon nid yn unig restru'r *mathau* o effaith ond dehongli'r rhain i Sir Benfro - a yw'r dulliau gweithredu presennol yn ddigonol i ddygydd â hyn?

Yr Economi - beth fydd goblygiadau Brexit i amaethyddiaeth? Pa gymorthdaliadau a grantiau sy'n hollbwysig i economi a seilwaith amaethyddiaeth yn lleol? Sut bydd yr ardal yn elwa o'r fargen ddinesig?

Gwasanaethau cyhoeddus - byddai'r adran hon yn elwa o gyfeirio'n ôl at y cruglwyth o dystiolaeth yn yr asesiad. O gadw golwg ar y sefyllfa bresennol a'r cyfnodau bywyd - beth yw'r materion arwyddocaol i'w hystyried gan wasanaethau cyhoeddus yn Sir Benfro ei hun (gweler y sylwadau ym mhwynt 4 uchod.)

Roedd annog ffocws ar y dyfodol yn yr ymgynghori yn ddefnyddiol trwy ofyn y cwestiwn sylfaenol "*Sut byddech chi am iddo [llesiant] edrych yn y dyfodol?*" Dylai dogfennau'r asesiad terfynol ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r dehongliad a nodi'r materion arwyddocaol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Byddai'r Asesiad yn elwa o ddealltwriaeth ehangach o ba mor fregus neu gydnherth yw cymunedau'r ardaloedd yn wyneb y mathau hyn o dueddiadau ac eraill. Er enghraifft, a yw ynni, dŵr, trafniadaeth, tai, ansawdd pridd a bioamrywiaeth Sir Benfro yn ddigon cydnherth i ddarparu sylfaen ar gyfer llesiant ar draws y cyfnodau bywyd? A oes materion lleol arwyddocaol i'w rheoli yn y tymor hir? Nodir o'r sgwrs ffôn gyda thîm y BGC fod lle i ddatblygu'r agwedd hon ar yr asesiad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ei hadroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys chwe thema allweddol sef: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a'r Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd, Defnydd Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad roi sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais cliriach ar heriau'r tymor hir i lesiant yn yr asesiad cychwynnol a gyhoeddir yn y misoedd nesaf.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n nodau fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dealltwriaeth a dadansoddiad manylach o'r materion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Sir Benfro yn fanteisiol, i lywio proses y cynllun llesiant. Ar hyn o bryd, mae'r naratif a ddarperir yn yr asesiad yn rhoi ystyriaeth gyfyngedig i le Sir Benfro yn y rhanbarth. Mae angen mwy o bwyslais ar faterion llesiant trawsffiniol fel trafniadaeth, darpariaeth iechyd, cymudo, seilwaith, tai, hamdden a thirlun - gan fod y rhain i gyd yn effeithio ar lesiant ym mhob cyfnod o fywyd. Yn hyn o beth, bydd hefyd yn bwysig bod y BGC yn ystyried casgliadau asesiadau llesiant lleol eu cymdogion wrth fynd ati i ddatblygu eu cynllun a chydabuwyd hynny yn ystod y sgwrs ffôn. Er enghraifft, byddai bod yn fwy eglur ynghylch yr effaith y gall dinas-ranbarth Bae Abertawe ei chael ar Sir Benfro yn ddefnyddiol. Er bod yr effeithiau penodol yn aneglur ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn dylanwadu ar gydlyniant, cydraddoldeb, cydnherthedd ac ati. Beth fydd y manteision tebygol i Sir Benfro?

Mae'n bwysig hefyd bod gwahanol fforymau rhanbarthol yn cydnabod ac yn bwydo'r asesiad a phroses y cynllun llesiant. Roedd yn galonogol clywed am y cysylltiadau cryf â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o ran yr asesiad. Mae'n amlwg y bydd angen i'r BGC wneud ymdrech i barhau i greu cysylltiadau rhwng gweithgarwch rhanbarthol a'i waith yn Sir Benfro.

Mae perthnasoedd sefydledig rhwng cyrff cyhoeddus ar draws y rhanbarth y mae angen eu hadlewyrchu yn y broses cynllunio llesiant. Mae'n bosibl y gall partneriaid allweddol fel y Bwrdd Iechyd Prifysgol a

Chyfoeth Naturiol Cymru helpu i ddarparu'r persbectif rhanbarthol hwn. Byddwn yn ymddiddori mewn gweld hefyd a all y cydweithio â Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ar yr arolwg gael ei ddatblygu i helpu yn hyn o beth. Gellid cynnwys y materion rhanbarthol hyn mewn sylwebaeth a dadansoddiad o'r cyddestun strategol ehangach fel y nodwyd mewn sylwadau blaenorol.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau bod cynllunio llesiant yn broses barhaus lle bydd y sylfaen o dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd y BGCau at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad a materion data wrth symud ymlaen.

Mae hwn yn faes lle byddem yn disgwyl gweld yr asesiad yn gwella. Mae adran 9 yn cydnabod yn glir *bod* bylchau tystiolaeth, ond nid yw'n cynnig fawr o ddealltwriaeth na chrynodeb o natur y bylchau hyn na pha mor arwyddocaol ydynt o ran llunio'r asesiad neu'r cynllun llesiant.

Mae angen i'r brif ddogfen ddarparu adran sy'n crynhoi'r bylchau data yn y gwahanol agweddau ar y gwaith er mwyn deall yr hyn y gallai fod ei angen yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir - h.y. beth sydd ar goll sy'n bwysig yn awr ar gyfer llywio datblygiad y Cynllun, beth fyddai'n dda ei ddatblygu yn y tymor canol a beth yw'r materion data yn y tymor hwy. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a'r tu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i sicrhau bod ymchwil a rheoli data yn cael eu mewnosod i'w cynlluniau busnes a chorfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru ynghylch anghenion y BGC.

12. Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r canllawiau statudol yn gosod cyfrifoldeb ar y BGCau i *fwyafu* eu cyfraniad i'r nodau llesiant trwy ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n galonogol bod yr asesiad yn cynnwys adran ynghylch sut mae ymagwedd y BGC at yr asesiad ei hun wedi dangos egwyddor datblygu cynaliadwy. Byddai'n dda deall sut mae'r ymagwedd wedi newid o ganlyniad i'r egwyddor hon? A fyddai'r BGC wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon beth bynnag neu a yw'r egwyddor wedi newid dull gweithredu'r BGC? Pa werth ychwanegol oedd wedi deillio o ddefnyddio'r egwyddor?

Mae'n bwysig hefyd fod y BGC yn defnyddio'r egwyddor hon i ddylanwadu ar eu dewis o amcanion llesiant yn y cynllun llesiant ac yn dangos eu bod nhw, wrth ddewis yr amcanion hynny:

- wedi ystyried camau ataliol
- wedi archwilio ymagweddau cydweithredol
- wedi cysylltu â'r unigolion a'r cyrff cywir
- wedi mabwysiadu ymagwedd integredig
- wedi ystyried yr effeithiau tymor hir ar gymunedau

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y dogfennau'n eglur ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae gweld Adrannau 9 a 10 ynghylch *Datblygiadau Pellach a Bylchau yn y Dystiolaeth a'r Camau Nesaf*, sy'n nodi rhywfaint o'r gwaith y gallwn ddisgwyl ei weld yn y chwe mis nesaf, yn gadarnhaol. Mae gweld, a chlywed am, yr ymrwymiad parhaus i ymgysylltu â dinasyddion trwy gydol y broses yn gadarnhaol hefyd.

Fodd bynnag, gellid cryfhau hyn - er enghraifft, nid yw'n eglur beth mae "*gweithio gyda phartneriaethau integredig i ddatblygu atebion arloesol ar y cyd*" yn ei olygu yn ymarferol. Gallai'r ddogfen fod yn fwy eglur ynghylch: y camau nesaf; sut gall unigolion a sefydliadau barhau i gymryd rhan; yr amserlen; a'r hyn y mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud.

Yn bwysicach, mae angen i'r eglurhad hwn gyfleu sut bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i lunio amcanion ar gyfer y BGC. Sut bydd yr wybodaeth yn yr asesiad yn cael ei defnyddio i ddatblygu blaenoriaethau - ai'r Crynodeb o 22 o faterion fydd man cychwyn y broses hon?

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle credwn y gallai'r asesiad gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi ac yn y tymor canol wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Ar ben hynny, trefnwyd galwad ffôn i ni fedru trafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC oedd wedi ymwneud â'r broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cychwynol a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchu'r asesiad.

Mae nifer o themâu eang, cylchol clir wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg i hon fod yn dasg anferthol dros gyfnod cymharol fyr o amser, a bod y partneriaid wedi mynd i ymdrech fawr i lunio'r asesiad drafft. Mae'r gwaith yn darparu sylfaen dda i'r BGC ddechrau blaenoriaethu materion ar gyfer y cynllun llesiant a phenderfynu pa asesiadau pellach sydd eu hangen. Ar yr un pryd, fodd bynnag, credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad:

cyd-destun strategol – gosod cyd-destun strategol ehangach ar gyfer Sir Benfro yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir er mwyn darparu 'lleoliad' ar gyfer y cyfnodau bywyd a'r sylwebaeth a'r mesurau cysylltiedig.

nodau llesiant – dealltwriaeth gliriach o'r berthynas rhwng y materion a nodwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol.

ardal a lle - i ategu'r dadansoddiad o'r cyfnodau bywyd, gwell dealltwriaeth o lesiant yn ardaloedd Sir Benfro, ei threfi, ardaloedd gwledig ac ardaloedd arfordirol er mwyn adlewyrchu'r materion llesiant mewn gwahanol leoliadau yn well

integreiddio ar draws themâu - mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd a goblygiadau hynny i lesiant

dehongli'r data a'i arwyddocâd – mwy o eglurhad ynghylch sut mae'r materion a nodwyd drwy'r data yn effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau, ac arwyddocâd hynny ledled Sir Benfro

cyd-destun rhanbarthol – gwell dealltwriaeth o le Sir Benfro yn y rhanbarth a'i chydberthnasoedd ag ardaloedd a chymunedau cyfagos, gan gynnwys rôl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Tueddiadau'r dyfodol – rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar lesiant yn Sir Benfro gyfan ac i gymunedau arbennig a dinasyddion y dyfodol (trwy'r naratif ynghylch cwrs bywyd)

symud ymlaen – rhoi disgrifiad eglurach o'r modd y bwriedir defnyddio'r Asesiad a'r data, sut bydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut bydd cynllunio llesiant yn symud yn ei flaen

Cydnabyddir y gellir mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr ac adeg cyhoeddi'r asesiad yn derfynol.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn yr asesiad terfynol a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.